

# Mathew yn dilyn Iesu


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (cyf. Catrin Roberts) Lluniau gan Richard Gunther





Dyma sut ddaeth Mathew yn berson oedd yn helpu Iesu neu yn ddisgybl i Iesu. Roedd yn rhaid i Mathew wneud dewis. Oedd e'n caru arian yn fwy na Iesu?



Roedd gan Mathew swydd bwysig yn casglu arian i'r brenin. Casglwr Trethi oedd teitl ei swydd. Doedd pobl ddim yn hoffi talu arian iddo fe.




Roedd Mathew yn ddyn galluog a chyfoethog. Ond doedd ei glyfrwch a'i gyfoeth ddim yn ei wneud yn hapus.




Un diwrnod gwelodd Mathew Iesu yn cerdded ar hyd y ffordd. Roedd Iesu'n gwella pobl sâl ac yn dweud wrth bobl am Dduw.



Gwelodd Iesu Mathew yn gweithio wrth ei ddesg. Aeth ato'n syth a dechrau siarad gydag e. Dwedodd Iesu, "Mathew, tyrd, dilyn fi." Roedd Mathew wedi'i synnu!



Beth fyddai Mathew'n ei wneud? Gadael ei arian? Gadael ei swydd er mwyn dilyn Iesu?



Cododd Mathew yn syth a dilyn Iesu. Daeth yn un o helpwyr Iesu. Roedd dilyn Iesu yn gwneud Mathew yn berson hapus iawn.




Ysgrifennodd Mathew am y pethau welodd e Iesu'n eu gwneud a'u dweud. Mae'r hyn ysgrifennodd e yn y Beibl – yn llyfr Mathew.